
# Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd: Adroddiad Blwyddyn 5

# National Peatland Action Programme: Year 5 Report

**2024/25**




**Cyfoeth Naturiol Cymru, Mehefin 2025**

(Fersiwn Gymraeg)

# Cynnwys

**Cynnwys** .... 2
**Uchafbwyntiau'r Bumed Flwyddyn: 2024/25** .... 4
**Crynodeb Gweithredol** .... 5
**1. Cyflwyniad** .... 7
**2. Adnoddau'r Rhaglen** .... 12
2.1. Systemau ariannu a ddefnyddiwyd i gyflawni rhaglen 2024/25 .... 12
2.2. Cymorth grant .... 13
2.2.1 Cyllid Strategol a Ddyrannwyd .... 13
2.2.2. Grantiau cystadleuol .... 15
2.2.3 Strategaeth Grantiau newydd wrth symud ymlaen .... 17
2.3. Caffael uniongyrchol .... 17
2.4. Cytundebau Rheoli Tir Adran 16 .... 18
**3. Trosolwg o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod Blwyddyn 5** .... 19
3.1. Adfer mawndiroedd trwy gyflawni gwaith cyfalaf .... 19
3.2. CSD Parc Cenedlaethol Eryri .... 23
3.3. CSD Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog .... 24
3.4. CSD yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol .... 25
3.5. CSD yr RSPB .... 26
3.6. Gwaith adfer a ariannwyd trwy gyfrwng y grant CSD (gwerth llai na £25k) .... 27
3.7. Cytundebau Rheoli Tir .... 28
3.7.1 Cwm Elan .... 28
3.7.2 Yr RSPB .... 29
3.8. Caffael uniongyrchol gan CNC .... 30
3.9. Diogelu Adnoddau .... 31
**4. Cydlynu a chefnogi'r modd y cyflawnir y gwaith** .... 33
4.1. Partneriaethau strategol .... 34
4.2. Tynnu sylw at rai o bartneriaethau allweddol Cymru a'r DU .... 37
Cymru – Partneriaethau Datganiadau Ardal, ymgysylltu sy'n seiliedig ar leoedd .... 38
Grŵp Partneriaid Gweithredu Strategol Adfer Mawndir Cymru .... 39

Grŵp Ymarferwyr Mawndiroedd Cymru .....40
Monitro ar gyfer Grŵp Gweithredu Mawndiroedd Cymru .....42
Grŵp Tystiolaeth Mawndiroedd Cymru .....42
Y Deyrnas Unedig – Yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) .....42
4.3. Fframwaith contractwyr .....43
4.4. Cyfathrebu .....43
**5. Rhaglen fonitro .....46**
5.1. Strategaeth fonitro'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd .....46
Monitro hydrolegol .....46
Monitro cyflwr .....47
Monitro infertebratau .....47
5.2. Arolygon mawn .....48

# Uchafbwyntiau'r Bumed Flwyddyn: 2024/25




**>600ha** gweithgareddau adfer*

14 partner wedi'u hariannu drwy 3 mecanwaith grant.


>41% o wariant gwaith adfer wedi'i gyflawni mewn cydweithrediad â phartneriaid ledled Cymru.

Lansio Grant Adfer Mawndir newydd.

**Adfer ger Hafod Elwy, YGLIC**



**Crynodeb o'r gwariant**




Ymunodd dros 30 o ymarferwyr ddigwyddiad cenedlaethol rhannu gwybodaeth i ymarferwyr.



*Gan gynnwys 527ha o waith adfer hygrolegol a rheoli erydiad. Adroddir ffigwr o ddros 3000ha pan ystyrir gwaith clirio coed hefyd.

# Crynodeb Gweithredol

Mae nod Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â'r argyfyngau Natur a Hinsawdd drwy Argymhellion yr Archwiliad Dwfn o Fioamrywiaeth a'r Cynllun Sero Net wedi bod yn nodau canolog craidd ar gyfer y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (RhWGF), a reolir drwy Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Hon yw'r bumed flwyddyn o gyfnod cychwynnol y rhaglen, sef pum mlynedd, gyda'r nod o adfer gwerth 600 hectar o fawndiroedd bob blwyddyn. Y targed ar gyfer y cyfnod cychwynnol o bum mlynedd oedd cyrraedd 3000ha - a chyrhaeddwyd hynny flwyddyn yn gynnar, ar ddiwedd y bedwaredd flwyddyn (2024).

Drwy'r Archwiliad Dwfn o Fioamrywiaeth, nododd Llywodraeth Cymru lwybr hirdymor o waith parhaus, gwaith uwchraddio a thargedau mwy - gyda'r nod o dreblu gweithgaredd adfer mawndiroedd erbyn 2031.

Mae'r bumed flwyddyn hon wedi'i nodweddu gan gyfuniad o gyflawni, adolygu a chynllunio ymlaen llaw wrth i'r RhWGF geisio cyflymu'r cyflawni yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys nifer o uchafbwyntiau o 2024/25, gan gynnwys:

**Cyflawni adferiad:**

- Gwerth dros 600 hectar o waith adfer[1]
- Gweithgarwch adfer[2] ar dros 3200ha[3]
- Cyflawni uniongyrchol ar dros 220ha gan RhWGF ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru
- Gwerth 527ha o waith adfer hydrolegol ac adfer ar ôl erydu.

- Dosbarthu cyllid:
    - >£1.15M i 14 o sefydliadau partner ym maes adfer mawndiroedd, a hynny drwy 3 rhaglen grant
    - £323,372 drwy Gytundebau Rheoli Tir
- Cynyddu capasiti RhWGF drwy benodi aelodau tîm ychwanegol.

**Adfer Mawndir Cymru mewn partneriaeth**

- Cydlynu grwpiau a rhwydweithiau strategol allweddol i ddatblygu gallu, rhannu arfer gorau a gwella llif gwybodaeth ar bob lefel:
    - Grŵp Ymarferwyr
    - Grŵp Partneriaid Strategol

[1] Ar lwybr adferiad, heb eithrio'r angen posibl yn y dyfodol am ddilyniant neu reolaeth barhaus. Mae'r ffigurau hyn yn geidwadol, yn seiliedig ar y data gorau sydd ar gael ar adeg adrodd, hyd nes y bydd ansawdd y data SGDd wedi'i sicrhau'n llawn a'i fod wedi'i gyhoeddi ar Borth Data Mawndiroedd Cymru.
[2] Mae pob ymyrraeth wedi'i chynnwys yn y ffigurau gweithgaredd ee. os yw clirio coed yn cael ei wneud cyn gwaith hydrolegol, cofnodir ardal y clirio coed fel gweithgaredd a chofnodir ardal yr adfer hydrolegol dilynol fel gweithgaredd ar wahân. Gall y ffigur hwn hefyd adlewyrchu achosion lle mae gweithgareddau'n digwydd ar draws blynyddoedd ariannol, ond ar yr un ardal o fawndir. Mae ardal y 'gweithgaredd adfer' yn fwy na'r 'ôl-troed'.
[3] Nodwch y gwahaniaeth rhwng ardal 'gweithgaredd adfer' ac ardal 'ôl-troed' (tua 3000ha). Er enghraifft, os yw dau weithgaredd adfer, fel clirio coed a gwaith adfer hydrolegol, wedi'u cynnal ar yr un ardal, dim ond unwaith y cânt eu cyfrif o ran 'ardal ôl-troed'.

    - Grŵp Monitro
    - Grŵp Tystiolaeth.
- Cefnogaeth i rwydweithiau a phartneriaethau rhanbarthol drwy Ddatganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Diogelu adnoddau (cynllunio)**

- Gweithredodd CNC rifyn 12 o Bolisi Cynllunio Cymru (PPW) ynghylch osgoi effeithiau ar gynefin mawndir na ellir ei ailosod a'i adnodd pridd mawn sylfaenol.
- Cynllunio gwerthusiadau gwaith achos ym mhob cam o'r broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC/DNS).

**Tystiolaeth a chyngor**

- Rhaglen arolwg dyfnder a chyflwr mawn ar gyfer adnodd mawndir wedi'i hyperaddasu a'i goedwigo.
- Arwyddion cadarnhaol o dreialon cychwynnol o waith monitro infertebratau.

Mae hon hefyd wedi bod yn flwyddyn o gydgrynhoi'r bartneriaeth gyflawni o dan faner 'Adfer Mawndir Cymru', gyda'r nod sy’n ein huno, sef 'Natur Uwch Carbon Is'.

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio gwaith a wnaed yn ystod pumed flwyddyn (2024/25) y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (RhWGF).

Mae hon yn Rhaglen genedlaethol strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Gellir dod o hyd i fanylion y Rhaglen mewn adran arbennig ar wefan CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru / Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd).

Mae'r Rhaglen yn cydnabod y cysylltiad cynhenid rhwng manteision bioamrywiaeth a ddarperir gan fawndiroedd iach a'u rôl o ran atal tanau gwyllt, cyflenwad/ansawdd dŵr, storio carbon, a rheoleiddio allyriadau nwyon tŷ gwydr. Nod y Rhaglen yw cynyddu gwydnwch ecosystemau mawndiroedd Cymru drwy waith adfer a rheoli cynaliadwy.

Mae'r Rhaglen Genedlaethol (Tabl **1** a ganlyn) yn canolbwyntio gweithgaredd adfer ar draws chwe thema blaenoriaeth ar gyfer gweithredu:

- Erydiad mawndiroedd
- Mawn wedi ei ddraenio
- Rheoli mawndiroedd diraddedig yr ucheldir mewn ffordd gynaliadwy
- Rheoli mawndiroedd diraddedig yr iseldir mewn ffordd gynaliadwy
- Mawndiroedd wedi'u coedwigo
- Mawndiroedd a hyperaddaswyd.

Mae tair thema drawsbynciol ychwanegol sy'n mynd i'r afael â'n gallu a'n capasiti ar y cyd yng Nghymru:

- Cydlyniant cenedlaethol
- Monitro a chofnodi gweithgareddau'n genedlaethol
- Ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid, ac yn ehangach, ynglŷn â gwaith adfer mawndiroedd a'i werth i gymdeithas.

**Tabl 1.** Crynodeb o themâu gweithredu blaenoriaeth a themâu trawsbynciol RhWGF.

# Themâu Gweithredu Blaenoriaeth RhWGF

### Erydiad mawndiroedd

- Mae erydiad mawndiroedd yn arwain at golli llystyfiant mawndiroedd ynghyd â'r dyddodion mawn hanfodol (naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl).
- Mae erydu yn arwain at lawer o allyriadau nwyon tŷ gwydr ynghyd â gronynnau a charbon tawdd.
- Hefyd, mae erydiad mawn yn effeithio'n fawr ar ddraenio – effeithiau sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i ôl troed uniongyrchol y nodweddion a gaiff eu herydu.
- Bydd newid hinsawdd yn gwaethygu erydiad. Er mai mater cymharol leol yw hwn, sy'n berthnasol yn bennaf i ucheldiroedd, mae angen cymryd camau ar frys i atal ychwaneg o golledion mawn ac i annog y mawn i ailddatblygu trwy gyfrwng amrywiaeth o dechnegau.



### Rheoli mawndiroedd diraddedig yr ucheldir mewn ffordd gynaliadwy



- Gorgorsydd yw'r cynefin mawndir ehangaf sydd gennym, ac mae maint y cynefin hwn yn golygu ei fod yn arbennig o bwysig o ran gwydnwch yr ecosystem, a hefyd o ran lliniaru nwyon tŷ gwydr, storio carbon, a rheoli perygl llifogydd yn naturiol.
- Mae erydiad mawn a draeniad mawn yn themâu ynddynt eu hunain, ond mae angen rhoi mesurau eraill ar waith yn eang fel y gellir mynd i'r afael â gormodedd o blanhigion glaswelltaidd neu rugaidd ac adfer gorgorsydd ar dir sydd wedi cael ei newid i raddau helaeth o'i gyflwr naturiol.
- Nod y thema hon yw adfer gorgorsydd i gyflwr lle bydd dulliau rheoli cynaliadwy rhad yn effeithiol o ran cynnal y ddarpariaeth o wasanaethau ecosystem a diddordeb bioamrywiaeth, ac o ran lleihau perygl tân.

**Rheoli mawndiroedd diraddedig yr iseldir mewn ffordd gynaliadwy**



- Mae mawndiroedd yr iseldir yn adnodd hanfodol ar gyfer bioamrywiaeth mawndiroedd, ond maent wedi'u darnio ac nid ydynt yn wydn iawn ar hyn o bryd.
- Mae mawndiroedd yr iseldir sydd wedi'u haddasu yn rhyddhau llawer o allyriadau nwyon tŷ gwydr a gallant storio llawer o garbon fesul hectar oherwydd dyfnder y dyddodion mawn.
- Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar adfer safleoedd i gyflwr lle gall dulliau rheoli cynaliadwy parhaus (yn cynnwys pori tymhorol pan fo hynny'n briodol) gynnal gwasanaethau ecosystemau a diddordeb bioamrywiaeth.

**Mawndiroedd wedi'u coedwigo**



- Mae coedwigo yn cynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o arwyneb y mawn ac yn peri i gynefinoedd mawndiroedd ddiraddio.
- Mae mawndiroedd wedi'u coedwigo yn rhan helaeth o adnodd mawndiroedd Cymru, yn bennaf ar dir uchel.
- Mae ffocws cyfredol y Rhaglen wedi bod ar adfer darnau o fawndir lle ceir planhigfeydd â dosbarthiad cnwd isel, yn ogystal â thir agored ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

**Mawndiroedd a hyperaddaswyd**



- Mae’r rhain yn bennaf yn cynnwys mawndiroedd sydd wedi’u haddasu’n fawr. Maent yn cynnwys ardaloedd a ddraeniwyd yn helaeth o dan laswelltir wedi’i wella a thir âr. Mae’r allyriadau nwyon tŷ gwydr mwyaf dwys sy’n deillio o fawndiroedd Cymru yn perthyn i’r categorïau hyn.

- Bydd y cam blaenoriaeth hwn yn anelu at ddechrau trwy gyfrwng proses ymgynghori a thrwy ddefnyddio safleoedd arddangos.

## Themâu trawsbynciol

| | |
|---|---|
| **Cydlyniant Cenedlaethol** | • Mae angen cydlyniant cenedlaethol er mwyn meithrin y capasiti a'r gallu i adfer mawndiroedd ar ran holl bartneriaid RhWGF.<br>• Mae'r broses sy'n gysylltiedig â Datganiadau Ardal yn rhan bwysig o'r gwaith hwn, a defnyddir fforwm ymarferwyr cenedlaethol i hyrwyddo arferion gorau ar draws pob agwedd ar RhWGF.<br>• Mae'r thema hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu canllawiau lle bo angen a helpu i ddarparu hyfforddiant i ymarferwyr a chontractwyr i wella'r gallu i gyflawni prosiectau adfer. |
| • Mae angen rhaglen genedlaethol gydgysylltiedig i gofnodi gweithgareddau a monitro canlyniadau er mwyn sicrhau bod camau a chanlyniadau'r prosiect yn cael eu cofnodi'n fanwl gywir, ar gyfer amrywiaeth eang o sbardunau adrodd.<br>• Hefyd, mae angen y gwaith hwn fel y gellir llywio a thargedu rhagor o ymdrechion a sicrhau y canolbwyntir ar leoliadau blaenoriaeth, ar draws y chwe thema gweithredu blaenoriaeth.<br>• Ategir y thema hon gan swydd bwrpasol oddi mewn i strwythur RhWGF, sef y Swyddog Data a'r System Gwybodaeth Ddaearyddol (SGDd). | **Monitro Cenedlaethol a Chiplun o Weithgaredd** |
| **Cynyddu ymgysylltiad rhanddeiliaid, ac yn ehangach, ynglŷn â gwaith adfer mawndiroedd a'i werth i'r gymdeithas** | • Mae mawndiroedd ymhlith prif asedau amgylcheddol Cymru, gan ddangos y gall defnyddio atebion ar sail natur esgor ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru.<br>• Bydd y thema drawsbynciol hon yn gweithio tuag at ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach ynglŷn ag adfer mawndiroedd.<br>• Ategir y thema hon gan swydd bwrpasol oddi mewn i RhWGF, sef y Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Phartneriaethau. |

# 2. Adnoddau'r Rhaglen

Cyfanswm y gwariant gan y Rhaglen yn 2024/25 oedd £3,467,523 Cyfalaf a £347,949 Refeniw. Darparwyd 100% o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru:


- Cyfalaf o £3,467,523 a ddarparwyd gan y Cynllun Buddsoddi Gwledig
- Refeniw o £347,949 a ddarparwyd o'r gyllideb Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol.

## 2.1. Systemau ariannu a ddefnyddiwyd i gyflawni rhaglen 2024/25

Er mwyn sicrhau bod y gyllideb a ddyrannwyd yn cael ei chyflawni'n effeithiol o fewn amserlen heriol, defnyddiodd y Rhaglen amrywiaeth o fecanweithiau ariannu i leihau risgiau i'r prosiect a chynyddu amrywiaeth y ddarpariaeth, a hefyd i alluogi darpariaeth ar draws gwahanol sefydliadau yng Nghymru.

Defnyddiodd y Rhaglen y systemau canlynol i ariannu a chyflawni prosiectau cyfalaf:

- grantiau,
- caffael uniongyrchol, a
- chytundebau rheoli tir.





**Ffigur 1.** Siart cylch yn dangos dadansoddiad o feysydd gwariant ar gyfer 2024/25.

## 2.2. Cymorth grant

Er mwyn cyflawni RhWGF, mae angen i amrywiaeth eang o gyrff partner gyfrannu ar y cyd ac mewn modd cydgysylltiedig – partneriaid y mae gan lawer ohonynt arbenigedd helaeth mewn adfer mawndiroedd.

Mae cymorth grant yn ffordd allweddol o ymgysylltu â phartneriaid, a llwyddwyd i wneud hyn trwy gyfrwng portffolio systemau grantiau CNC. Dyrannodd y Rhaglen gyfanswm o £1,152,532 ar draws 14 o dderbynwyr trwy 3 grant ar wahân yn 2024/25.





**Ffigur 2.** Siart cylch yn dangos cyfanswm y gwerth a ddyfarnwyd o dan bob un o'r tri grant ar wahân yn 2024/25.

### 2.2.1 Cyllid Strategol a Ddyrannwyd

Bwriad y system Cyllid Strategol a Ddyrannwyd yw galluogi CNC i gyflawni gwaith blaenoriaeth trwy gyfrwng partneriaid strategol. Caiff cyllidebau eu dyrannu rhwng partneriaid yn unol â fformiwla sy'n seiliedig ar feini prawf gwrthrychol. Yn 2023/24, aeth y RhWGF ati i ddefnyddio CSD i ddyrannu grantiau i amrywiaeth o dderbynyddion grantiau dros gyfnod o ddwy flynedd (2023/24 a 2024/25), a derbyniodd naw o'r rheini y cynnig CSD.

Gwnaed gwaith yn 2024/25 i geisio cymeradwyaeth ar gyfer strategaeth grantiau ar gyfer 2025 i 2028. Rhoddwyd cymeradwyaethau erbyn mis Rhagfyr 2024. Anfonwyd llythyrau dyrannu CSD i chwe phartner ym mis Rhagfyr 2024. Lansiwyd Grant Adfer Mawndir cystadleuol (sy'n galluogi datblygu a/neu gyflawni camau gweithredu) ar 18 Rhagfyr 2024. Yn dilyn asesiadau a phrosesu ceisiadau, dyfarnwyd grantiau CSD ar 1 Ebrill 2025. Disgwylir y dyfarniadau Grant Adfer Mawndir cystadleuol ym mis Mai 2025.

**Ffigur 3.** Mae'r siart a'r tabl isod yn dangos gwaith adfer mawndiroedd a ariannwyd trwy gyfrwng y Grant Cyllid Strategol a Ddyrannwyd (CSD) ym Mlwyddyn 5 (2024/25). Dyrannwyd cyfanswm o £700k i bartneriaid trwy gyfrwng CSD; ar gyfer 2024/25, derbyniwyd cyfanswm o £624,660, a chyfanswm gwariant y partneriaid oedd £597,719.





| Cyllid Strategol a Ddyrannwyd | Dyraniad yn 2023/24 | Dyraniad yn 2024/25 |
|---|---|---|
| AHNE Dyffryn Gwy | £16,122 | £16,122 |
| Coetir Anian | £16,309 | £16,309 |
| Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed | £17,596 | £17,596 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | £20,985 | £20,985 |
| AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | £23,218 | £23,218 |
| Yr RSPB | £61,064 | £61,064 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | £98,041 | £98,041 |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | £121,325 | £121,325 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | £250,000 | £250,000 |

## 2.2.2. Grantiau cystadleuol

**Grantiau Datblygu (2024/25)**

Dyfarnwyd rownd newydd o Grant Datblygu dechrau 2024 i naw ymgeisydd llwyddiannus. Roedd gwerthoedd y grantiau yn amrywio o £10,000 i £30,000. Mae'r Grant Datblygu hwn yn helpu partneriaid newydd i gymryd camau allweddol o ran asesu eu mawndir(oedd) cyn cyflwyno cynllun gweithredu i gynnal y gwaith adfer yn y dyfodol. Dyma enghreifftiau o gamau a gymerwyd i baratoi ar gyfer adfer mawndiroedd: casglu data am safleoedd, yn cynnwys data SGDd yn ymwneud â dyfnder y mawn a draenio artiffisial, paratoi i ailsefydlu migwyn, a chysylltu â chymunedau a sicrhau caniatâd.

Cyfanswm a ddyrannwyd drwy Grant Datblygu:
**£196,586**
Cyfanswm a wariwyd gan bartneriaid drwy'r Grant Datblygu:
**£193,209**





**Ffigur 4.** Dyfarnu Grantiau Datblygu Mawndiroedd i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwaith adfer parod.

**Grantiau Gweithredu (2023/24 – 2024/25)**

Lansiwyd hefyd grant cystadleuol newydd ar gyfer gwaith adfer ym mis Mawrth 2023 a'i ddyfarnu i bedwar ymgeisydd llwyddiannus ym mis Medi 2023, a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn Ionawr 2025. Mae derbynwyr Grant Gweithredu yn cynnwys partneriaid presennol a thirfeddianwyr preifat. Cyflawnodd y Grant Gweithredu Adfer weithgarwch adfer ar ~218ha gan bedwar derbynnydd.

Cyfanswm a ddyrannwyd drwy'r Grant Gweithredu am 2023/24 a 2024/25: £485,231
Cyfanswm wariwyd gan bartneriaid drwy'r Grant Gweithredu yn 2023/24: **£153,898**
Cyfanswm i'w wario yn 2024/25: **£331,333**
**Cyfanswm wariwyd yn 2024/25: £ £283,112**




**Ffigur 5.** Dyfarnu'r Grantiau Gweithredu i adfer mawndiroedd.

Mae ymgysylltu rhagweithiol wedi parhau rhwng y Rhaglen a phob un o'r 14 derbynnydd grant. Roedd gwaith ymgysylltu'n canolbwyntio ar gefnogi derbynwyr grant gyda'r broses grantiau, datrys unrhyw broblemau posibl, hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth rhwng partneriaid, a datblygu dealltwriaeth y Rhaglen o sut mae gwahanol bartneriaid grant yn ymwneud ag adfer mawndir. Mae gwaith ymgysylltu wedi cael ei wneud ar ffurf cyfarfodydd rheolaidd, adolygiadau ac ymweliadau safle.

### 2.2.3 Strategaeth Grantiau newydd wrth symud ymlaen

Mae rhaglen grant tair blynedd (yn amodol ar gadarnhad blynyddol o gyllid) wedi'i sefydlu i redeg o 2025/26 i 2027/28. Mae hyn yn cynnwys grant CSD tair blynedd (cyfanswm gwerth hyd at £2M y flwyddyn) i nifer llai o bartneriaid strategol (chwech). Bydd y partneriaid hyn yn derbyn dyraniad uwch nag o'r blaen oherwydd 1) y cynnydd mewn cyllid/uwchraddio RhWGF/Adfer Mawndir Cymru, a 2) yr hyder ynddynt i reoli'r raddfa hon o gyllid.

## 2.3. Caffael uniongyrchol



**Ffigur 6**. Delwedd o Hafod Elwy (gwaith cam 3), Alwen, Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru.

Unwaith eto, roedd caffael uniongyrchol ar gyfer gwaith adfer yn canolbwyntio ar ardaloedd o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Yn dilyn trafodaeth gyda Thîm Cynllunio’r Goedwig Genedlaethol oddi mewn i CNC ac arweiniad gan yr Adran Stiwardio Tir, dewiswyd mawndiroedd wedi’u coedwigo er mwyn canolbwyntio ar ardaloedd â dosbarthiad cnwd isel (<10) a thir agored (yn ôl diffiniad y broses Cynllunio Adnoddau Coedwig).

Hefyd, mae’r Rhaglen wedi ariannu gwaith ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Gwarchodfeydd Natur gyda chymorth gan dimau gweithlu integredig a thimau Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol lleol. Aeth y Rhaglen ati i brynu gwaith yn uniongyrchol trwy gyfrwng cytundebau fframwaith RhWGF.

## 2.4. Cytundebau Rheoli Tir Adran 16

Yn gyffredinol, caiff cyllid uniongyrchol a roddir gan CNC ar gyfer adfer neu reoli gweithgareddau ar dir trydydd partïon ei lywodraethu gan Gytundeb Rheoli Adran 16.

Yn 2024/25 ariannwyd gwaith adfer drwy bum cytundeb rheoli tir ar wahân.



**Ffigur 7**. Adfer gorgors ucheldirol ar raddfa fawr yn Hengae, Cwm Elan**.**


### 2.4.1 Cytundebau Rheoli Tir Eraill

Hefyd, ariannodd y Rhaglen geisiadau adfer mawn gan dimau eraill o Gyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn cyflawni ledled Cymru. Ariannwyd cyfanswm o 11 prosiect (llai na £30k yr un o ran gwerth), gan gynnwys gwaith yn Llyn Llech Owain yn Sir Gaerfyrddin.


# 3. Trosolwg o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod Blwyddyn 5

Isod, crynhoir rhai o elfennau allweddol y prosiect a nodir ffigurau sy’n dangos rhai o’r prif feysydd y llwyddwyd i’w cyflawni yn 2024/25.

## 3.1. Adfer mawndiroedd trwy gyflawni gwaith cyfalaf





**Ffigur 8**. Map yn dangos lleoliad safleoedd gweithgarwch adfer yn 2024/25 a'r prif themâu yr aethpwyd i’r afael â nhw ar bob safle. Troshaenir yr wybodaeth ar Fap Mawndiroedd Cymru.




**Ffigur 9**. Siart gylch ar fap, a thabl cysylltiedig yn dangos crynodeb o’r gwariant ar draws y mathau eang o weithgareddau a dargedwyd yn 2024/25.


| **Gweithgarwch adfer:** | **Ha*** |
|---|---|
| Rheoli hydrolegol | 445.18 |
| Rheoli erydiad | 81.38 |
| Rheoli llystyfiant | 11.14 |
| Rheoli coed | 2404.47 |
| Rheoli drwy Bori | 260.6 |

* Mae'r ffigurau hyn yn geidwadol, yn seiliedig ar y data gorau sydd ar gael ar adeg adrodd, hyd nes y bydd ansawdd y data SGDd wedi'i sicrhau'n llawn a’i fod wedi’i gyhoeddi ar Borth Data Mawndiroedd Cymru.




**Ffigur 10.** Siartiau cylch ar fap, a thabl cysylltiedig, yn dangos crynodeb o wariant ar draws mathau eang o weithgareddau adfer, fesul ardal weithredol, yn 2024/25.

| Ardal Weithredu | Rheoli erydiad | Pori | Rheoli hydrolegol | Rheoli coed | Rheoli llystyfiant | Cyfanswm Ha |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolbarth Cymru | 61.49 | 23.67 | 162.93 | 36.03 | 5.02 | 289.14 |
| Gogledd-ddwyrain Cymru | 0.91 | 0 | 17.86 | 141.2 | 0 | 159.97 |
| Gogledd-orllewin Cymru | 18.98 | 224.04 | 261.81 | 2227.27 | 3.38 | 2735.48 |
| De-ddwyrain Cymru | 0 | 8.73 | 0 | 0 | 0 | 8.73 |
| De-orllewin Cymru | 0 | 4.16 | 2.58 | 0 | 2.74 | 9.48 |




**Ffigur 11**. Map yn dangos lleoliad gweithgaredd adfer yn 2024/25, a'r dull ariannu a ddefnyddiwyd ar gyfer pob prosiect, wedi'i osod ar ben Map Mawndir Cymru.

**Tabl 2.** Dadansoddiad o waith a gyflawnwyd yn erbyn y dull a ddefnyddiwyd yn 2024/25.

| Dull | Hectarau a adroddwyd* | Y prif themâu blaenoriaeth yr ymdriniwyd â nhw |
|---|---|---|
| Grant Cyllid Strategol a Ddyrannwyd | 2396 | • Draeniad mawndiroedd<br>• Erydiad mawndiroedd<br>• Rheoli mawndiroedd yr ucheldir mewn modd cynaliadwy |
| Grant Gweithredu | 38 | • Draeniad mawndiroedd<br>• Erydiad mawndiroedd |
| Cytundebau Rheoli Tir Adran 16 | 209 | • Draeniad mawndiroedd<br>• Erydiad mawndiroedd<br>• Rheoli mawndiroedd yr ucheldir mewn modd cynaliadwy |
| Caffael gwaith tir yn uniongyrchol | 151 | • Mawndiroedd wedi'u coedwigo<br>• Rheoli mawndiroedd yr iseldir mewn modd cynaliadwy |

* Bydd y ffigur hwn yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â methodoleg gofnodi'r Rhaglen, felly mae'r data'n anghyflawn. Mae'r ffigurau yn y tabl hwn, a gofnodwyd ar gyfer grantiau CSD, yn cynnwys ardal sylweddol o hectarau lle'r aethpwyd ati yn bennaf i gael gwared â *sitka* wedi'i hadu.

## 3.2. CSD Parc Cenedlaethol Eryri




**Ariannwyd gan y RhWGF drwy grant CSD**

**>2456ha**

gweithgaredd adfer*









*Mae'r RhWGF yn gweithio i wella cysondeb yr adrodd a wneir am hectarau sy'n destun gweithgareddau adfer

## 3.3. CSD Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog



## 3.4. CSD yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol



Adfer Mawndir Cymru mewn partneriaeth

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust


**16ha**

gweithgaredd adfer*

**Ariannwyd gan y RhWGF drwy grant CSD**








*Mae'r RhWGF yn gweithio i wella cysondeb yr adrodd a wneir am hectarau sy'n destun gweithgareddau adfer

## 3.5. CSD yr RSPB




## 3.6. Gwaith adfer a ariannwyd trwy gyfrwng y grant CSD (pob un yn werth llai na £25k)



## 3.7. Cytundebau Rheoli Tir

### 3.7.1 Cwm Elan



## 3.7.2 Yr RSPB




rspb


**Ariannwyd gan y RhWGF drwy Gytundebau Rheoli Tir Adran 16**

**140ha**


gweithgaredd adfer*







## 3.8. Caffael uniongyrchol gan CNC



# 3.9. Diogelu Adnoddau

## Gwaith Achos Cynllunio

Mae datblygu, gan gynnwys cynlluniau ynni adnewyddadwy yn ucheldiroedd Cymru, yn peri'r potensial i niweidio neu ddinistrio priddoedd mawn a chynefinoedd mawndiroedd.

### Polisi Cynllunio Cymru

Yn ystod 2024/25, gweithredodd CNC rifyn 12 o Bolisi Cynllunio Cymru (PPW) ynghylch osgoi effeithiau ar gynefin mawndir na ellir ei ailosod a'i adnodd pridd mawn sylfaenol. Crynhoir y sefyllfa fel a ganlyn:

- Dylai datblygiadau osgoi priddoedd mawn a chynefinoedd mawndir ar briddoedd mawn fel mater o egwyddor. Dylid osgoi unrhyw golled neu ddifrod pellach i'n hecosystemau mwyaf cyfoethog o ran carbon yng Nghymru o ystyried y gorchmynion deuol a rhyngddibynnol a achosir gan yr argyfyngau Natur a Hinsawdd. Felly bydd CNC yn gwrthwynebu/codi pryderon ynghylch unrhyw effaith ar briddoedd mawn a chynefinoedd mawndir ar briddoedd mawn. Mae'r farn ynghylch a allai effaith ar gynefin mawndir anadferadwy fod yn gyfiawn ar sail "eithriadol iawn"[1] yn fater i'r sawl sy'n penderfynu yn hytrach nag i CNC, er y byddai CNC yn cynghori ar arwyddocâd effeithiau. Mae'r egwyddor hon hefyd yn berthnasol, yn achos priddoedd mawn, i sefyllfaoedd lle gallai "ystyriaethau perthnasol arwyddocaol eraill" gyfiawnhau cymeradwyo datblygiad niweidiol, er y byddai CNC unwaith eto ond yn cynghori ar arwyddocâd effeithiau.

- Effeithiau ar bridd mawn bas a chynefin mawn ar bridd mawn bas: Mae CNC yn cynghori ei bod yn arfer da hefyd gymhwyso'r hierarchaeth liniaru i asesu a cheisio osgoi effeithiau ar briddoedd mawn bas lle mae'r rhain (i) yn cefnogi cynefin mawndir lled-naturiol, a/neu (ii) yn arwyddocaol yn swyddogaethol ar gyfer dyddodion mawn dyfnach cyfagos.

- Digolledu: O ystyried yr amodau amgylcheddol penodol yn y gorffennol a'r amser sydd ei angen ar gyfer datblygu proffiliau mawn ac ecosystemau mawndir, bydd CNC yn cynghori nad yw digolledu neu wneud yn iawn am effeithiau sy'n arwain at ddinistrio priddoedd mawn a chynefinoedd mawndir (e.e. trwy ôl troed datblygu) yn cael ei ystyried yn ymarferol yn gyffredinol.

- Effeithiau gweddilliol bach: Yn eithriadol, gall effeithiau gweddilliol bach uniongyrchol ar gynefinoedd mawn a thir mawn, ac effeithiau anuniongyrchol ar gynefinoedd mawn a thir mawn cyfagos, fod yn dderbyniol, ar yr amod y gall ymgeiswyr ddangos:

    - bod pob ymdrech wedi'i gwneud i leihau effeithiau trwy osgoi (gan gynnwys yn ystod y cam dewis safle) yn seiliedig ar ddealltwriaeth fanwl o leoliad adnoddau mawn ar safle

    - y gellir cymhwyso camau lliniaru effeithiol ar gyfer sicrhau'r effeithiau lleiaf posibl trwy arfer gorau a manylion dylunio sydd wedi'u profi

    - bod yr hyn a wneir i ddigolledu yn cyfateb i luosrif sylweddol o'r effaith, a

- bod modd sicrhau'r mesurau digolledu arfaethedig yn y tymor hir.

**Gwaith Achos Cynllunio – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC/DNS)**


Drwy gydol y cyfnod adrodd, cafodd nifer o achosion eu gwerthuso. Roedd y rhain yn cynnwys cynigion ym mhob cam o'r broses DAC. Gwnaeth swyddogion CNC gynrychioliadau a rhoi tystiolaeth yng Ngwrandawiad DAC Pen March ym mis Tachwedd 2024.

----

[1] PCC rhifyn 12.


# 4. Cydlynu a chefnogi'r modd y cyflawnir y gwaith

Gweler y gwahaniaeth rhwng rôl strategol a rôl cyflawni adfer uniongyrchol y RhWGF yn Ffigur 12. Mae rôl gyflawni'r Rhaglen, ynghyd â'r arfer o gyfathrebu â phartneriaid mewnol ac allanol, yn llywio strategaethau. Ar y llaw arall, mae rôl strategol y Rhaglen yn ei galluogi i gynnig cydlyniant a hwyluso arferion gorau o ran y modd mae partneriaid mewnol ac allanol yn cyflawni'r adfer ac yn adrodd.




**Ffigur 12**. Yn dangos dwy rôl ar wahân i RhWGF – arweiniad strategol a chyflawniad uniongyrchol.


Er bod partneriaid allanol yn gweithredu o dan wahanol sefydliadau, maent wedi'u hintegreiddio trwy strwythur cyflawni a chydlynu'r RhWGF (gweler Ffigur 13). Felly, yn ogystal â chyflawniad adfer uniongyrchol y RhWGF, mae'r adroddiad hwn hefyd yn adlewyrchu llwyddiant adfer partneriaeth ehangach Adfer Mawndir Cymru.




**Ffigur 13**. Dangosir bod Adfer Mawndir Cymru yn ddull partneriaeth a'i fod yn cynnwys yr holl weithredu i adfer mawndiroedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

## 4.1. Partneriaethau strategol

Er mwyn bod yn effeithiol o ran amser a chostau, ac effaith hirdymor camau adfer mawndiroedd, mae'r RhWGF wedi mapio grwpiau partneriaeth neu rwydweithiau allweddol.




**Ffigur 14**. Mae'r siart perthynas a'r tablau cysylltiedig canlynol yn rhoi trosolwg o rôl strategol RhWGF. Maent yn mapio'r partneriaethau Allanol a Mewnol, grwpiau rhanddeiliaid a rhwydweithiau a gynullwyd neu y cyfrannwyd atynt gan y RhWGF.

| **Partneriaethau, grwpiau rhanddeiliaid a rhwydweithiau allanol** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Nod** | **Dyddiadau / rheoleidd-dra** |
| Cyswllt gyda Llywodraeth Cymru | RhWGF yn adrodd a LIC yn darparu cyfeiriad strategol a chyllid. | Rheolaidd yn ôl yr angen |
| Grŵp Partneriaid Strategol Adfer Mawndir Cymru | Dull strategol cydgysylltiedig. Cefnogi cyfnewid gwybodaeth, cydnabod blaenoriaethau ar y cyd, gwaith partneriaeth cryf a nodi cyfleoedd ariannu eraill. | Bob chwe mis 13/6/2024 12/12/2024. |
| Rhwydwaith Ymarferwyr - Gweithredu ar Leoliad Adfer Mawndir Cymru | Arfer orau dysgu ar y safle gyda chyfnewid gwybodaeth ymarferol am yr hyn sydd wedi llwyddo a'r gwersi a ddysgwyd. | Digwyddiad deuddydd yn ne Cymru 2023. Digwyddiad 1 diwrnod yng ngogledd Cymru Ebrill 2024. Digwyddiad deuddydd wedi'i gynllunio yng nghanolbarth Cymru ym mis Mai 2025. |
| Grŵp Cyflawni Pedair Gwlad ar Fawndiroedd (Wedi'i gychwyn gan RhWGF/Adfer Mawndir Cymru, gyda nhw yn cynrychioli Cymru) | Mynd i'r afael â heriau cyffredin trwy gydweithio, gyda'r flaenoriaeth gychwynnol yn canolbwyntio ar safonau a methodolegau adrodd. | Yn ôl yr angen, yn flynyddol. |
| Grŵp Llywio Rhaglen Mawndiroedd IUCN y DU (Dr Peter S Jones CNC/RhWGF a James Cooke, Llywodraeth Cymru fel cynrychiolwyr Cymru) | Cefnogi gwaith Rhaglen Mawndiroedd IUCN y DU. Darparu mewnbwn i ymgysylltiad ehangach yr IUCN trwy erthyglau / cyflwyniadau neu mewn cynadleddau. | Aelodaeth o Grŵp Llywio'r Rhaglen a phresenoldeb mewn cyfarfodydd chwarterol. |
| Grŵp Monitro Gweithredu Adfer Mawndir Cymru | Datblygu ac elwa o fonitro gwaith adfer mawndiroedd gyda golwg ar rannu arfer gorau a safoni. | Bob chwe mis 5/6/2024 22/1/2025. |
| Grŵp Tystiolaeth Adfer Mawndir Cymru | Datblygu ac elwa o waith ymchwil ym maes mawndiroedd, gan nodi bylchau mewn gwaith ymchwil, cyllid, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer cydweithio fel partneriaeth a rhannu gwybodaeth. | Bob chwe mis 25/9/2024 26/3/2025. |
| Cyfarfodydd rhanddeiliaid Datganiad Ardal Allanol / Pobl a Lleoedd | Datblygu perthnasoedd gyda grwpiau allanol trwy gydweithio mewnol rhwng RhWGF a thimau Datganiad Ardal | Yn ôl y gofyn, yn dilyn cyfleoedd a nodwyd gan dimau Datganiad Ardal. |

| Enw | Nod | Dyddiadau / rheoleidd-dra |
|---|---|---|
| Grŵp Cynghori Technegol Polisi Pridd | Sicrhau cydweithio rhwng CNC/Llywodraeth Cymru. Mae RhWGF yn darparu diweddariadau. | Bob 4-6 wythnos |
| Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir, a Choedwigaeth (LULUCF) – Is-grŵp Data Mawn | Sicrhau y gellir defnyddio gweithgaredd adfer mawn ar gyfer adrodd ar y rhestr nwyon tŷ gwydr cenedlaethol. | Yn flynyddol |
| Grŵp Cynghori Arbenigol GGR-Peat (Tynnu Nwyon Tŷ Gwydr drwy ffurfio mawn yn gyflym). | Mae'r prosiect yn archwilio'r potensial ar gyfer cyflymu croniad carbon mewn mathau penodol o fawndiroedd sydd wedi'u haddasu'n sylweddol. | 6 mis |
| Grŵp Mawndiroedd a'r Amgylchedd Hanesyddol | Nodi gorgyffwrdd a dwyn materion cyffredin ynghyd i fynd i'r afael â nhw. | Achlysurol |
| Bwrdd Cynghori Technegol y Cod Mawndiroedd | Agwedd y DU at y Cod Mawndiroedd – adborth ar ddatblygiadau yng Nghymru. | 6 mis |

**Grwpiau a rhwydweithiau rhanddeiliaid mewnol**


| Enw | Nod | Fformat / rheoleidd-dra |
|---|---|---|
| Bwrdd CNC, Prif Swyddog Gweithredol a'r Uwch Dîm Rheoli | Cael y wybodaeth ddiweddaraf am gyfeiriad strategol a chefnogaeth. | Adroddiadau, cyflwyniadau ac ymweliadau safle. |
| Bwrdd y RhWGF | Adrodd a throsolwg. | Bob deufis. Trosglwyddwyd i Fwrdd y RhWGF yn 2024 i'w ehangu ymhellach. |
| Partneriaid Darparu a Rhanddeiliaid | Sicrhau arferion gorau a chyflawni i ansawdd da ar gyfer yr holl waith adfer mawndir a ariennir gan y RhWGF. | Parhaus ar y cyd â dyfarniadau cyllid, rheoli contractau, briffio ar y safle, ac adolygiadau. |
| Contractwyr | Sicrhau bod contractwyr ac offer ar gael. Gwirio costau cystadleuol a darpariaeth o ansawdd. | Parhaus ar y cyd â'r fframwaith caffael, rheoli contractau, sesiynau briffio ar y safle, ac adolygiadau. |
| Grŵp Gweithredu Mawndir CNC | Meithrin dull cydlynol ar draws CNC ar gyfer ymyriadau a chyfleoedd adfer mawndir. | Bob 3 mis, gyda'r opsiwn o gyswllt ag is-grwpiau rhwng hynny. |

| Enw | Nod | Fformat / rheoleidd-dra |
| --- | --- | --- |
| Datganiad Ardal / Pobl a Lleoedd | Strategaethau natur mawndiroedd lleol cydlynol. Rhannu gwybodaeth am brosiectau Pobl a Lleoedd/RhWGF, cyfleoedd, ardaloedd lleol a diddordeb perchnogion tir. Arwain at ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol yn unol ag argymhelliad y Datganiad Ardal. | Gyda thimau Datganiad Ardal unigol. Yn 2024/25 gyda'r ardaloedd â'r gorchudd mawndir uchaf, timau Canolbarth Cymru a Gogledd Orllewin Cymru. |
| Swyddogaethau CNC sydd â diddordeb mewn adfer mawndir (e.e. yr amgylchedd, dŵr, datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd) | Cyfathrebu effeithiol ar draws swyddogaethau CNC gyda chyfle cynhwysfawr i unrhyw weithiwr o fewn CNC sydd â chysylltiadau neu ddiddordeb mewn adfer mawndir i ymuno â chyflwyniad a sesiwn holi ac ateb ynglŷn â gwaith RhWGF. | Recordiad o weminar a sesiwn holi ac ateb 2024 ar gael yn llyfrgell gweminarau mewnol. Gweminar ar uwchraddio wedi'i gynllunio ar gyfer 2025/26. |

Mae RhWGF hefyd yn cefnogi timau a chydweithwyr eraill ar draws CNC, yn nodweddiadol gyda chyngor yn ymwneud â rheoli ac adfer mawndiroedd.

## 4.2. Tynnu sylw at rai o bartneriaethau allweddol Cymru a'r DU

Mae RhWGF wedi parhau i ddatblygu a chyflawni ei uchelgeisiau cyfathrebu, ymgysylltu a dull partneriaeth yn 2024/25. Mae Ffigur 15 yn crynhoi digwyddiadau ymgysylltu allweddol ar draws tair prif faes thema. Isod mae trosolwg o rai o uchafbwyntiau 2024/25.




**Ffigur 15.** Crynodeb 2024/25 o grŵp, partneriaeth, ac ymgysylltiad yn ôl math o ddigwyddiad.


## Cymru – Partneriaethau Datganiadau Ardal, ymgysylltu sy'n seiliedig ar leoedd

Mae cydgysylltu, cefnogi a helpu partneriaid i gyflawni gwaith adfer yn un o dair thema drawsbynciol y RhWGF. Cydnabyddir pwysigrwydd Datganiadau Ardal ym Mholisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru a chynhwysir hyn mewn deddfwriaeth ar ffurf Adran 11 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae dull y Datganiad Ardal yn ganolog i waith y RhWGF yn y maes hwn. Mae chwe phartneriaeth y Datganiadau Ardal tir (gweler Ffigur 16) yn darparu grwpiau o randdeiliaid y gall y Rhaglen eu defnyddio i sicrhau yr eir ati mewn modd cydweithredol i ddatblygu rhaglenni adfer ar y raddfa fwyaf priodol ac yn y lleoliadau cywir o fewn fframwaith canllaw cyffredinol y Rhaglen Genedlaethol.

Mae'r dull hwn sy'n 'seiliedig ar leoedd' yn hollbwysig i athroniaeth Datganiadau Ardal, ac mae'n helpu i sicrhau y gall y RhWGF feithrin capasiti a gallu yn y rhannau hynny o Gymru neu yn y sectorau hynny lle na chafwyd rhyw lawer o weithredu hyd yn hyn.

Yn ystod 2024/25, roedd mentrau a gynhaliwyd rhwng y RhWGF a'r timau'r Datganiadau Ardal yn cynnwys datblygu prosiectau ymgysylltu gyda thimau Gogledd Orllewin Cymru a Chanolbarth Cymru, cyfleoedd adfer, ac archwilio buddiannau pori ar fawndiroedd. Mae Grŵp Conwy Llifo AS Gogledd-orllewin Cymru yn enghraifft o fforwm lle gall RhWGF drafod cynllunio adfer mawndiroedd gyda phartneriaid rhanbarthol.




**Ffigur 16.** Mae cynrychiolaeth dda o fawndiroedd Cymru yn Natganiadau Ardal Canolbarth a Gogledd-orllewin Cymru lle bu prif ffocws ymgysylltu'r RhWGF hyd yn hyn.

## Grŵp Partneriaid Gweithredu Strategol Adfer Mawndir Cymru

Nod:

Nod y grŵp partneriaeth lefel uchaf hwn yw sicrhau dull strategol cydgysylltiedig a alluogir trwy gyfnewid gwybodaeth, cydnabod blaenoriaethau ar y cyd, a nodi cyfleoedd ariannu eraill. Mae'r grŵp yn darparu modd o gefnogi adnabod a datrys rhwystrau allweddol i gyflawni.

Crynodeb o'r Gweithgaredd:

Cynhaliwyd dau gyfarfod ym mis Mehefin a mis Rhagfyr 2024. Pynciau blaenoriaeth a gynhwyswyd:

- ffenestri grant, adborth, datblygu a mireinio prosesau
- briffio ar y Cyllid Strategol a Ddyrannwyd a nodau cyllido cystadleuol
- rôl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wrth reoli a chynnal a chadw mawndiroedd

- oedi i ddatblygu capasiti RhWGF oherwydd rhewi recriwtio dros dro yn CNC
- mawndir wedi'i addasu'n ormodol
- cynefinoedd cyfun o fawndir a choedwigoedd glaw'r Iwerydd
- yr haen adfer newydd ar Fap Mawn Cymru
- yr eirfa ymyriadau ddwyieithog
- Megaddalgylch Bannau Brycheiniog
- Gwobrau Dydd Gŵyl Dewi dros yr Amgylchedd
- uwchraddio RhWGF a swyddi newydd
- datblygiadau cynllunio sy'n effeithio ar fawndiroedd
- Adroddiad Strategaeth a Chynhadledd yr IUCN.

At hynny, mae cydweithredu ar lefel ranbarthol, neu ar lefel y dirwedd, yn cyfrannu gwybodaeth at y grŵp strategol hwn, gan gynnig, felly, drosolwg gwell o weithgarwch Cymru gyfan.

## Grŵp Ymarferwyr Mawndiroedd Cymru

Nod:

Datblygu'r gallu a'r cyfnewid gwybodaeth ar gyfer ymarferwyr mawndiroedd o bob cwr o Gymru. Mae cyflawni adferiad yn dibynnu ar sefydliadau partner. Mae rhannu arferion gorau a rhwydwaith yn hanfodol i ddatblygu'r hyder a'r technegau i fynd i'r afael ag ystod eang o gyd-destunau defnydd tir a darparu gwerth am arian.

Crynodeb o'r Gweithgaredd:

Roedd mwy na 30 o fynychwyr yn bresennol yn Nigwyddiad Ymarferwyr 2024, yn cynrychioli 15 o sefydliadau / prosiectau.

Ymweliadau â safleoedd:

- Bwlch y Groes: wedi'i adfer gan Barc Cenedlaethol Eryri ar y cyd â'r tirfeddiannwr a rannodd ei phrofiad o ymrwymo i'r Cod Mawndir.

- Gadfa: Wedi'i reoli a'i adfer gan yr RSPB i gynnwys pyllau sy’n cydgloi gyda'r nod o efelychu safle gorgors sy'n gweithredu'n naturiol – nodwedd sydd bellach bron wedi'i cholli o dirweddau gorgorsydd Cymru.

Ategwyd yr ymweliadau â safleoedd gan gyfleoedd rhwydweithio proffesiynol a chyflwyniadau gan un o arweinwyr tîm RhWGF, a rheolwyr prosiect Parc Cenedlaethol Eryri a’r RSPB. Gallai ymarferwyr sy’n gweithredu ar lawr gwlad rannu heriau cyffredin, dysgu am wahanol ffyrdd o weithio, trafod dulliau sy’n gweithio ac nad ydynt yn gweithio mewn gwahanol gyd-destunau, a meithrin perthnasoedd ar gyfer cymorth ymarferol parhaus oddi wrth eu cymheiriaid.

Cafwyd adborth andros o gadarnhaol o’r digwyddiad a dyma rai enghreifftiau:

> “Trefnu da, cydbwysedd da rhwng gwrando y tu mewn a phrofi’r tu allan. Cyflwyniadau da gan arbenigwyr.”

“Wedi'i drefnu'n dda, cyflwyniadau gwych ymlaen llaw, roedd gan y daith maes lawer o amser ar gyfer trafodaethau a chwestiynau. Safleoedd adfer diddorol iawn ac wedi'u cyflwyno'n dda gan staff Parc Eryri a'r RSPB. Cael y tirfeddiannwr yn bresennol oedd yr uchafbwynt i mi – roedd gallu gofyn cwestiynau iddyn nhw tra ar eu tir yn werthfawr iawn. Mwy o hyn yn y dyfodol os yn bosibl.”



**Ffigur 17.** Llun o Ddigwyddiad Ymarferwyr Adfer Mawndiroedd Cymru gyfan RhWGF, yn ymweld â safleoedd gorgorsydd Bwlch y Groes a'r Gadfa yng ngogledd Cymru, a gynhaliwyd gan y tirfeddianwyr a'r rheolwyr adfer, Parc Cenedlaethol Eryri a'r RSPB.

## Monitro ar gyfer Grŵp Gweithredu Mawndiroedd Cymru

Nod:

Nod y Grŵp hwn o ymarferwyr, sy'n cynrychioli'r partneriaid cyflawni allweddol, yw datblygu ac elwa o fonitro adfer mawndiroedd gyda'r bwriad o rannu arfer gorau a safoni.

Crynodeb o'r Gweithgaredd:

Cynhaliwyd cyfarfodydd i archwilio'r problemau a wynebwyd wrth gyflawni safoni, ym mis Mehefin 2024 ac ym mis Ionawr 2025. Ymhlith y pynciau trafod roedd yr Haenau Gweithgaredd Adrodd ar Fap Mawndir Cymru, y Rhestr Termau Adfer, Mawndir, bioacwsteg, mapio mawn, Cynllun Monitro Hydrolegol RhWGF, a diweddariadau o brosiectau.

## Grŵp Tystiolaeth Mawndiroedd Cymru

Nod:

Nod y Grŵp hwn yw datblygu ac elwa o ymchwil i fawndiroedd, nodi bylchau ymchwil a chyfleoedd ariannu, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer cydweithio a lledaenu gwybodaeth gan bartneriaid.

Crynodeb o'r Gweithgaredd:

Cynhaliwyd cyfarfodydd ag academyddion ac arbenigwyr blaenllaw ym maes mewndiroedd, ym mis Medi 2024 a mis Mawrth 2025. Mae'r aelodau'n trafod rhaglenni tystiolaeth cyfredol ac arfaethedig. Mae posibiliadau ar gyfer cydweithio a chyfleoedd ariannu hefyd yn cael eu nodi. Mae RhWGF yn sicrhau croesgyfeirio gwybodaeth berthnasol a drafodir yn y grwpiau Monitro a Thystiolaeth.

## Y Deyrnas Unedig – Yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN)

Nod:

Nod mewnbwn RhWGF yw cefnogi Rhaglen Mawndiroedd y DU yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN), ac i nodi materion a digwyddiadau sy'n berthnasol i adfer mawndiroedd yng Nghymru.

Crynodeb o'r Gweithgaredd:

Mae RhWGF yn darparu mewnbwn strategol Cymru i gefnogi rôl Rhaglen Mawndiroedd yr IUCN. Darperir mewnbwn trwy gyfarfodydd, cynadleddau, a diweddariadau a newyddion ar gyfer gwefan yr IUCN. Cyfrannodd RhWGF at gynhadledd Mawndiroedd yr IUCN UK yn Aviemore ym mis Medi 2024, gyda mewnbwn i ymateb y wlad ar y drafodaeth banel, darlith perfformio fel enghraifft o ymgysylltu drwy'r celfyddydau, a chyflwyniad yn y gweithdy mawn iseldir. Cafodd cysylltiadau RhWGF eu gwella hefyd trwy gael stondin yn y digwyddiad tri diwrnod o hyd.

## 4.3. Fframwaith contractwyr

**Fframwaith arolwg mawn**

Datblygwyd fframwaith arolwg mawndir newydd, sy'n caniatáu caffael arolygon allweddol, ac fe'i rhoddwyd allan i dendr. Mae'r fframwaith yn caniatáu caffael gwaith ar draws pedwar maes allweddol: 1) arolygon mawn (arolygon pecyn cymorth mawn wedi'i goedwigo ac arolygon dyfnder mawn), 2) arolygon cyflwr/monitro cynefinoedd, 3) arolygon cyflwr/monitro hydrolegol, a 4) arolygon llygoden bengron y dŵr/rhywogaethau gwarchodedig. Bydd y fframwaith yn cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2025 a bydd ar waith am bedair blynedd.

**Fframwaith gwaith tir mawn**

Yn 2024/25, paratôdd RhWGF ar gyfer lansio'r fframwaith contractwyr newydd yn 2025/26. Mae RhWGF yn bwriadu manteisio ar y cyfleoedd newydd a ddarperir gan Ddeddf Caffael 2023 a ddaeth i rym ar 24 Chwefror 2025. Mae paratoadau ar y gweill i lansio fframwaith agored gwaith tir newydd yn 2025/26, gyda chynlluniau i gynnal digwyddiadau allgymorth cyflenwyr ar gyfer ymgeiswyr presennol a darpar ymgeiswyr newydd i helpu i lywio a llunio'r dull newydd. Darperir rhagor o fanylion am ddatblygu a sefydlu'r fframwaith hwn yn adroddiad 2025/26.

## 4.4. Cyfathrebu

O safbwynt rôl strategol y Rhaglen, mae hi’n bwysig ymgysylltu’n helaeth er mwyn cyfleu’r manteision a’r cyfleoedd sy’n perthyn i adfer mawndiroedd. Mae’r RhWGF yn cydgysylltu mwy na 10 o bartneriaethau allweddol, grwpiau â buddiannau neu rwydweithiau, ac mae’n cyfrannu arbenigedd mewn mawndiroedd at fwy na 10 o grwpiau cysylltiedig. Mae unigolion yn cysylltu â’r Rhaglen yn uniongyrchol drwy npap@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk ac mae RhWGF yn elwa o berthnasoedd cryf â phartneriaid darparu, gyda mwy a mwy o weithgareddau ymgysylltu cydweithredol.

Yn ogystal ag ymgysylltu â safleoedd adfer mawndir, yn 2024/25 cynhaliodd RhWGF fwy na 118 o gyfarfodydd ymgysylltu, cyflwyniadau a digwyddiadau allgymorth, naill ai wyneb yn wyneb neu’n ddigidol. O'r rhain, roedd 90 yn ymwneud ag ymgysylltu allanol. Mae’r Rhaglen yn rhagweithiol o ran cynnig cyfleoedd i ymgysylltu, a hefyd mae hi’n barod iawn i ymateb i geisiadau. Mae amrywiaeth y digwyddiadau a’r gweithgareddau yn adlewyrchu’r amrywiaeth o bartïon sydd â buddiant neu ddiddordeb mewn adfer mawndiroedd. Crynhoir hyn yn fras isod:

- Buddiant a diddordeb y cyhoedd – drwy ddigwyddiadau cyhoeddus fel Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, lle'r oedd gan RhWGF stondin yn y 'Dysgubor' cyntaf, digwyddiadau cyfryngau, a gweithgareddau allgymorth arbennig. Ymhlith y digwyddiadau arbennig hynny, roedd cyflwyniad ar-lein yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru, prosiect cwmpasu peilot i fapio hanes lleol yn ardal adfer Tywi, a pharatoi fideo animeiddio dwyieithog gydag infograffeg i'w ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus.
- Tirfeddianwyr, ffermwyr, cymunedau, unrhyw rai â buddiant neu ddiddordeb posibl mewn adfer mawndiroedd - yn uniongyrchol fel unigolion, mewn digwyddiadau

allgymorth, a thrwy gyfrwng cyhoeddusrwydd yn ymwneud â lansio grantiau newydd yn cynnwys gweminarau canllaw ar-lein. Lansiwyd y Grant Adfer Mawndir newydd (£10K-£250K) ym mis Rhagfyr 2024. Cynhyrchwyd gweminarau dwyieithog i gefnogi'r gweithgaredd allgymorth hwn: Gweminar arweiniad ar-lein (Cymraeg) <https://youtu.be/M4_R_8J0O8M> a Guidance webinar (Saesneg) <https://youtu.be/MyWcDRgYtEc>. Roedd 102 o ymweliadau â'r gweminarau a uwchlwythwyd, yn ogystal â'r 41 o unigolion a fynychodd y gweminarau ar-lein. Roedd digwyddiadau allgymorth eraill yn cynnwys cyfarfod i gyflwyno cyfleoedd adfer, a drefnwyd gan ffermwyr yng Nghletwr, Sir Aberteifi, lle dangosodd ffermwyr ddiddordeb blaengar.

- Partneriaid cyflawni presennol – trwy gyfrwng y grwpiau partneriaeth y soniwyd amdanynt eisoes, ond hefyd trwy gyswllt uniongyrchol a gweminar arweiniad ar-lein ar gyfer ceisiadau am y grant Cyllid Strategol a Dyrannwyd. Cafodd adnodd ychwanegol, sef y Rhestr o Weithgareddau, groeso da yn 2024. Mae'n galluogi safoni adrodd ar ddulliau adfer.
- Academyddion ac arbenigwyr proffesiynol – trwy gyfrwng grwpiau partneriaeth a amlinellir, ond hefyd yn rhagweithiol ac yn uniongyrchol er mwyn rhannu arferion gorau, gwaith ymchwil diweddar, datblygiadau technolegol newydd ac ati. Mae cysylltiadau â phrifysgolion wedi'u cryfhau trwy Grŵp Tystiolaeth Mawndiroedd Cymru. Gan fod y RhWGF hefyd yn trefnu Grŵp Monitro Gweithredu Adfer Mawndir Cymru, mae'r mecanwaith pontio strategol hefyd yn ei le i alluogi gwaith monitro i adlewyrchu blaenoriaethau ymchwil yng Nghymru.
- Llunwyr polisi a swyddogion – drwy ddata, adroddiadau a chyfarfodydd, mae RhWGF yn bwydo i nodau cyfunol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfyngau Natur a Hinsawdd. Roedd croeso mawr gan lunwyr polisi i'r newyddion yn 2024 bod RhWGF wedi cyflawni ei dargedau adfer flwyddyn yn gynnar. Mae Map Mawndiroedd Cymru a'r 'haen weithgaredd' newydd, sy'n dangos yr adferiad a wnaed gyda thabiau ar gyfer rhagor o wybodaeth, wedi profi'n ddefnyddiol i gynrychiolwyr etholedig a'r cyhoedd fel ei gilydd. Cafodd ei werthfawrogi fel mecanwaith arfer da mewn fformat hawdd ei ddefnyddio ar gyfer atebolrwydd ar gyfer raglen a ariennir yn gyhoeddus.
- Cydweithwyr oddi mewn i CNC – trwy gyfrwng grwpiau strategol a grwpiau cyflawni a nodwyd eisoes, ond hefyd trwy gyswllt uniongyrchol ag arbenigwyr sy'n gweithio ledled y sefydliad ar fawndiroedd, rhywogaethau, coedwigaeth, hydroleg ac ati. Hefyd, mae'r ymgysylltu mewnol yn cynnwys ystyried prosesau cyfathrebu, oherwydd cefnogir y RhWGF gan swyddogaethau mewnol allweddol CNC sy'n galluogi llwyddiant y Rhaglen.

**Digwyddiadau a Chyflwyniadau**: Fel yr amlinellwyd, mae RhWGF yn gwneud cyflwyniadau rheolaidd ar safleoedd neu ar-lein, ac roedd y llwyfannau amlycaf ar gyfer rhannu negeseuon yn ymwneud â Gweithredu ar Fawndiroedd yng Nghymru yn 2024/25 yn cynnwys y canlynol:

- Cymru gyfan: y cyflwyniadau gweminar, ymgysylltu lleol, digwyddiadau cenedlaethol fel Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, a digwyddiadau ar-lein fel Wythnos Hinsawdd Cymru.

- Y Deyrnas Unedig gyfan: Ymateb Cynhadledd Mawndiroedd IUCN y DU ar gyfer Cymru yn y drafodaeth panel, cyfathrebu â mawndiroedd drwy'r ddarlith perfformio, a mewnbwn i weithdy mawndiroedd iseldir.

## Negeseuon, sianeli a data

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth o’r angen am adfer mawndir a’r buddion o wneud hynny, rhannwyd negeseuon cyhoeddus clir:

- Mae 4% o arwynebedd Cymru yn fawndiroedd, a gall y mawndir hwn ddal 30% o’n carbon tir.
- Yn anffodus, mae oddeutu 90% o fawndiroedd Cymru mewn cyflwr gwael ac mae hyn yn cyflymu newid hinsawdd trwy ryddhau nwyon tŷ gwydr.
- Mae’r ateb yn gymharol syml a chost-effeithiol – sef adfer mawndiroedd er mwyn eu troi’n dirweddau bioamrywiol sy’n amsugno a dal dŵr ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.
- Yn ychwanegol at fynd i’r afael â’r argyfyngau Natur a Hinsawdd, gall adfer mawndiroedd helpu i liniaru effeithiau eraill sy’n gysylltiedig â newid hinsawdd, megis llifogydd a pherygl tân.


Mae’r negeseuon yn cael eu symleiddio mewn dau hashnod cyfryngau cymdeithasol, sef #AdferMawndirCymru a #NaturUwchCarbonIs.

I ategu’r ymgysylltu wyneb yn wyneb gyda phartneriaethau a’r cyhoedd, defnyddir sianeli cyfathrebu allweddol eraill megis: y dudalen we, y cyfryngau cymdeithasol, y cyfryngau, a fideos. Mae data dadansoddol o’r ffynonellau hyn yn dangos cynnydd sylweddol mewn diddordeb ac ymgysylltiad mewn pynciau adfer mawndiroedd yn ystod 2024/25.

# 5. Rhaglen fonitro

## 5.1. Strategaeth fonitro'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (RhWGF)

Mae ein dull monitro yn seiliedig ar allu dangos y newid mewn dwy set graidd o ganlyniadau, sef newid ecolegol (y disgwylir iddo gynnwys gwella bioamrywiaeth yn bennaf) a'r newidiadau a ragwelir (gostyngiadau cyffredinol) mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r dull hwn wedi'i grynhoi yn Ffigur 18.




**Ffigur 18.** Crynodeb o ddull y RhWGF o fonitro canlyniadau adfer mawndiroedd. Dim ond elfennau wedi'u marcio â seren goch sy'n feysydd gwaith cyfredol.

Mae asesiad o newidiadau a ragwelir mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael ei gwmpasu gan waith y RhWGF i ddatblygu system cofnodi gweithgarwch adfer gynhwysfawr – gweler adroddiad blynyddol 2022/23 6.2.2.

### Monitro hydrolegol

Canolbwyntiodd gwaith RhWGF i asesu ymatebion hydrolegol i adfer yn 2024/25 ar ddatblygu methodoleg sy'n rhoi dulliau safonol i ddefnyddwyr ar gyfer monitro lefel dŵr, ynghyd â dyluniadau monitro safonol ar gyfer y prif gategorïau o waith adfer. Cwblhawyd drafft terfynol o'r gwaith hwn yn 2024/25 ((Low a RhWGF, 2025) ac mae wedi cael ei adolygu gan Grŵp Monitro Gweithredu ar Fawndiroedd Cymru a Grŵp Tystiolaeth Gweithredu ar Fawndiroedd Cymru. Mae RhWGF yn disgwyl y bydd yr allbwn hwn yn parhau i esblygu yn seiliedig ar arfer gorau.

O ran monitro canlyniadau hydrolegol gwaith adfer, dechreuodd RhWGF raglen gynhwysfawr a strwythuredig o ran gosod offer safleoedd adfer, yn unol â'r Cynllun Monitro Hydrolegol.



**Ffigur 19.** Ffynnon fesur newydd-ei-osod yn cael ei arolygu i mewn i ddata OS ac uchder gan Dr Rob Low, hydrolegydd ymgynghorol RhWGF. Cors Gerwyn, Fforest Tywi.

## Monitro cyflwr

Yn 2024/25, cynhaliwyd gwaith monitro cyflwr wedi'i dargedu ar dri safle, gan gynnwys safle i'w adfer gan bartneriaid y RhWGF. At ei gilydd, mae methodoleg monitro canlyniadau ecolegol RhWGF bellach wedi cwmpasu cyfanswm o saith safle sy'n cyfateb i 215ha yn amodol ar asesiad cyflwr sylfaenol, gyda 329 plot gwaelodlin wedi'u sefydlu.

## Monitro infertebratau

Yn ystod y bumed flwyddyn (2024/25), ariannodd RhWGF astudiaeth i ymchwilio i ymateb agweddau ar y ffawna di-asgwrn-cefn i ail-wlychu safle a oedd gynt wedi'i goedwigo (Gallon, 2025). Adroddodd yr astudiaeth hon fod elfennau'r ffawna infertebrat a astudiwyd yn dechrau ymdebygu i rai arwynebau corsydd sydd bron yn naturiol, a hynny o fewn tair blynedd i'r adferiad hyd yn oed. Mae hyn yn dangos potensial sylweddol ar gyfer monitro yn y dyfodol a hefyd ar gyfer datblygiad arfaethedig metrig bioamrywiaeth i helpu i asesu manteision adfer o ran adferiad natur.

# 5.2. Arolygon mawn

## Arolygon mawn ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru

Ym mhumed flwyddyn y Rhaglen, parhawyd i arolygu mawndir wedi’i goedwigo ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru er mwyn llywio proses cynllunio Adnodd Coedwig (fel y'i disgrifir yn Adroddiad Blwyddyn 2). Bob 10 mlynedd, mae CNC yn adolygu'r cynlluniau rheoli hirdymor ar gyfer pob ardal o goedwig. Mae'r rhain yn cael eu crynhoi mewn Cynlluniau Adnoddau Coedwig newydd, neu'n cael eu defnyddio i ddangos bod angen newid cynlluniau.

Bydd data arolwg mawn a gesglir fel rhan o’r broses hon hefyd yn bwydo’n ôl i ddiweddaru cyfres mapiau Mawndiroedd Cymru, er mwyn gwella’r gwaith o fapio’r adnodd mawndiroedd yng Nghymru. Yn 2024/25, arolygwyd pedwar bloc coedwig ychwanegol gan ddefnyddio methodoleg y Pecyn Cymorth Mawndiroedd, gan gwmpasu arwynebedd cyfunol o 683ha.


## Arolygon Mawn Hyperaddasedig

Wrth baratoi ar gyfer diweddaru cyfres ddata Mawndiroedd Cymru, lluniwyd ymgyrch arolwg i fynd i'r afael â rhai o'r bylchau data allweddol. Nodwyd mawndiroedd wedi'u hyper-addasu fel ardal flaenoriaeth oherwydd eu tangynrychiolaeth ddifrifol ar y mapiau cyfredol. Gan mai dyma'r math o fawndir sy'n allyrru'r swm fwyaf o ollyngiadau, maen nhw'n flaenoriaeth ar gyfer adfer yn y dyfodol. Gan fod gan fawndiroedd wedi'u hyper-addasu lystyfiant sy'n debyg i laswelltir wedi'i wella, mae'n llawer anoddach eu hadnabod o bell, felly mae angen samplau maes o'r cynefinoedd hyn.

Cynhaliwyd asesiad desg i nodi ardaloedd o laswelltir wedi'i wella (dosbarth B4 o arolwg cynefinoedd Cyfnod 1) ar haen Cynefin Cyfnod 1 cenedlaethol Cymru. Yna cafodd hyn ei groesgyfeirio â dealltwriaeth RhWGF o'r mawndir cyfagos o wybodaeth leol a haenau Mawndiroedd Cymru, er mwyn pennu rhestr o safleoedd addas i'w harolygu ymhellach.

Nodwyd tri safle ar gyfer cynnal arolygon. Y rhain oedd Gwarchodfa RSPB Ynys Hir, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi – Cors Fochno, a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron.

Nododd y gwaith arolwg ardaloedd sylweddol o fawndir wedi'i hyperaddasu. Mae Ffigur 20 yn dangos y canlyniadau o ardal arolwg sy'n laswelltir wedi'i wella yn bennaf ar y map cam 1 cenedlaethol. Fodd bynnag, mae gwaith RhWGF yn dangos bod stociau mawn sylweddol o dan yr wyneb. Gellir defnyddio'r gwaith hwn i lywio amserlen waith sy'n edrych ar adfer mawndir wedi'i hyper-addasu sy'n thema flaenoriaeth allweddol i RhWGF.




**Ffigur 20.** Enghraifft o allbynnau data o'r gwaith arolwg hyperaddasedig yng Nghors Fochno.